

Fersiwn Rhif 3

Teitl: Polisi Defnydd Derbyniol o TG i Fyfyrywyr

Fersiwn No:	3
Teitl y Ddogfen	Polisi Defnydd Derbyniol o TG i Fyfyrywyr
Asesiad o effaith cydraddoldeb wedi'i gwblhau	04/11/15 EIA-Cam-1 Polisi-Defnydd-Derbynion-o-TG-i-Fyfyrywyr
	ENW TEITL DYDDIAD
Awdur	Mark Brandish Cyfarwyddwr Technoleg a Gwasanaethau Llyfrgell 8/06/20
Cymeradwywyd gan	ISPG 17/06/20

Dyddiad Dod i Rym:

17/06/23

Dyddiad Adolygu:

17/06/20

Polisi Defnydd Derbyniol o TG i Fyfyrywyr

Mae'r Polisi hwn yn dogfennu agwedd y Coleg at y defnydd derbyniol o'i galedwedd TG a'i adnoddau meddalwedd gan fyfyrywyr.

Mae'r Coleg yn darparu cyfrifiaduron ac adnoddau rhwydwaith at ddefnydd myfyrywyr mewn ystafelloedd dosbarth addysgu a mannau adnoddau eraill. Fel rhan o'r cyfleuster hwn, mae mynediad i'r Rhyngrwyd, cyfrifon e-bost a meddalwedd sy'n eiddo i'r Coleg ar gael ar y sail eu bod yn darparu adnoddau perthnasol i gynorthwyo myfyrywyr wrth iddynt astudio.

Cyfrifoldebau

Drwy ddefnyddio cyfrifiadur neu ddyfais symudol sy'n perthyn i Goleg Cambria rydych chi'n cytuno nid yn unig i ddilyn y rheolau yn y Polisi hwn, ond hefyd yn cytuno i roi gwybod am unrhyw gamddefnydd o adnoddau a rhwydwaith y Coleg i aelod o staff y Coleg. Mae 'camddefnyddio' yn golygu unrhyw achos o dorri'r Polisi hwn neu unrhyw ddefnydd arall sydd heb ei gynnwys yn y Polisi ac sy'n cael yr effaith o niweidio unigolyn arall neu eu heiddo neu dorri'r gyfraith

Mae'r polisïau/gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol cyn pob blwyddyn

academaidd a'ch cyfrifoldeb chi yw cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Gall torri'r polisi hwn arwain at gymryd camau disgyblu yn eich erbyn.

Adnoddau TG y Coleg - Diben a Defnydd

Mae'r Coleg yn darparu mynediad i'w galedwedd cyfrifiadurol, rhwydweithiau a'r Rhyngrwyd at ddibenion addysgol yn unig. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a yw gweithgaredd bwriadedig yn un addysgol ai peidio, fe allech ymgynghori â'ch tiwtor neu'r tîm Gwasanaethau TG i'ch helpu i benderfynu a yw'r defnydd yn briodol.

Radicalaiddio

Radicalaiddio yw'r broses lle mae pobl yn dod i gefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar ac, mewn rhai achosion, yn mynd ymlaen i ymuno â grwpiau terfysgol. Gwaherddir defnyddio cyfrifiaduron, dyfeisiau neu rwydweithiau'r Coleg i gael mynediad at ddeunydd sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar. Mae'r coleg yn cyfyngu mynediad at gynnwys anghyfreithlon gan gynnwys deunydd hiliol a chasineb, a deunydd sy'n hyrwyddo trais neu ymosodiad ar unigolion neu sefydliadau ar sail grefyddol, hiliol neu ryweddol. Bydd unrhyw fyfyrwr y canfyddir eu bod yn cyrchu deunyddiau o'r fath yn cael eu riportio o dan Broses Rhoi Gwybod am Faterion Diogelwch yr Coleg. Fe allai hyn arwain at asiantaethau allanol fel yr Heddlu yn cael gwybod am y camau gweithredu.

Preifatrwydd

Darperir mynediad rhwydwaith a Rhyngrwyd fel offeryn ar gyfer eich addysg. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i fonitro, archwilio, copïo, adolygu a storio ar unrhyw adeg a heb rybudd ymlaen llaw unrhyw a phob defnydd o'r rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad i'r Rhyngrwyd ac unrhyw wybodaeth a drosglwyddir neu a dderbynnir mewn cysylltiad â defnydd o'r fath. Bydd pob ffeil wybodaeth o'r fath yn eiddo ac yn parhau i fod yn eiddo i'r Coleg ac ni fydd gan unrhyw ddefnyddiwr unrhyw ddisgwyliad o breifatrwydd ynghylch deunyddiau o'r fath.

Hawlfraint a Thrwyddedau Meddalwedd

Polisi Coleg Cambria yw parchu pob hawlfraint meddalwedd cyfrifiadurol a chadw at delerau ac amodau unrhyw drwydded y mae Coleg Cambria yn barti iddo. Gwaherddir lawrlwytho a/neu osod meddalwedd heb awdurdod yn llwyr. Mae hyn yn cynnwys lawrlwythiadau meddalwedd o'r Rhyngrwyd ac o e-byst.

Ni fydd Coleg Cambria yn esgusodi'r defnydd o unrhyw feddalwedd diddrwydded ac fe fydd unrhyw fyfyrwr y canfyddir eu bod yn defnyddio meddalwedd heb drwydded, neu ym mediant meddalwedd didrwydded yn destun gweithdrefnau disgyblu

Chromebooks

Er mwyn diogelu defnyddwyr, dyfeisiau a rhwydweithiau'r Coleg, mae logio ceisiadau gwe (DNS) wedi'i ffurfweddu ar ein dyfeisiau Chrome OS fel y bydd gwefannau gwaharddedig yn cael eu blocio a bydd y cais yn cael ei gofnodi, gan gynnwys enw cyfrif a chyfeiriad IP y defnyddiwr. Sylwer: Mae logio cais DNS yn rhwym i gyfrifon Google Coleg Cambria (e.e. 21234567@cambria.ac.uk) ac os defnyddir cyfrif i fewngofnodi i ddyfais Chrome OS personol, bydd yr hidlo a'r mewngofnodi yn dal mewn grym. Dylid defnyddio cyfrifon Google personol ar gyfer dyfeisiau Chrome OS personol.

Rhwydfoesau

Rhaid i bob defnyddiwr gadw at reolau'r rhwydwaith a rhwydfoesau, sy'n cynnwys:

1. Byddwch yn ddiogel. Wrth ddefnyddio'r rhwydwaith cyfrifiadurol a'r Rhynggrwyd, peidiwch â datgelu gwybodaeth bersonol fel eich cyfeiriad cartref a'ch rhif ffôn. Peidiwch â threfnu cyfarfod wyneb yn wyneb â rhywun rydych chi'n eu 'cyfarfod' ar y rhwydwaith cyfrifiadurol neu'r Rhynggrwyd, os ydych chi o dan 18 oed, heb ganiatâd rhiant, a waeth beth yw eich oedran, mewn lle diarffordd neu mewn lleoliad preifat.
2. Byddwch yn ofalus. Peidiwch â pheryglu diogelwch mynediad i fyfyrwyr a rhwydwaith cyfrifiadurol neu rwydweithiau eraill ar y Rhynggrwyd. Er enghraifft, peidiwch â datgelu na rhannu eich cyfrinair ag eraill na dynwared un arall. Rhaid i'r cyfrinair fod o leiaf 8 nod o ran hyd ond mae cyfrineiriau hirach yn fwy diogel. Rydym yn argymhell defnyddio ymadrodd byr sy'n hawdd i chi ei gofio.
3. Ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio gwasanaethau Rhynggrwyd a/neu e-bost y Coleg i dderbyn neu anfon deunydd osy'n mynd yn groes i'r gyfraith neu bolisiau cyhoeddiedig y Coleg (erthyglau sy'n rhywiaethol, hiliol, anwedus, neu'n hyrwyddo ymddygiad anghyfreithlon).
4. Mae pob e-bost sy'n cael ei anfon o gyfrif e-bost yn gyfrifoldeb deiliad y cyfrif unigol.
5. Mae cynnwys cyfeirlyfr cartref cyfrif rhwydwaith (gyriant H:) a Google Drive yn gyfrifoldeb deiliad y cyfrif unigol.
6. Ni ddylid anfon negeseuon e-bost at staff y Coleg heb eu caniatâd blaenorol.
7. Rhaid i fyfyrwyr beidio ag ymyrryd â gosodiadau'r rhwydwaith neu'r gweithfannau.
8. Caniateir cysylltu dyfeisiau personol gan ddefnyddio'r rhwydwaith WiFi a ddarperir. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r defnydd o ddyfeisiau personol tra

byddant wedi'u cysylltu.

10. Nid yw Coleg Cambria yn caniatáu i fyfyrwyr osod neu ddefnyddio meddalwedd heb awdurdod neu gopïo neu gael gwared â meddalwedd o ddyfeisiau a /neu rwydweithio'r Coleg.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn offeryn defnyddiol ac mae Coleg Cambria yn deall bod myfyrwyr yn cyfathrebu drwy safleoedd fel Facebook ac Instagram. Fodd bynnag, mae yna hefyd beryglon ynghlwm â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac mae disgwyl i fyfyrwyr ei ddefnyddio'n gyfrifol, boed hynny ar ddyfais sy'n perthyn i'r coleg neu ar ddyfais bersonol.

Rhaid i bob defnyddiwr gadw at y canllawiau canlynol wrth gael mynediad i wefannau cyfryngau cymdeithasol drwy rwydwaith y coleg neu ar safle'r coleg.

- Ni chaniateir defnyddio iaith neu wylïo, creu na rhannu delweddau amlwg rywiol na'i gynghori o safbwynt diogelu.
- Ni oddefir iaith ymosodol neu fgythiol.
- Ni chaniateir defnyddio iaith hiliol neu eithafol a fyddai'n mynd yn groes i werthoedd Prydain a Choleg yn uniongyrchol, fel y manylir yn strategaeth Prevent.
- Ni chaniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion radicleiddio na mynegi barn eithafol.
- Ni chaniateir cyfathrebu ag aelodau staff ac eithrio ar safle cyfryngau cymdeithasol sefydledig y Coleg. Dylai unrhyw gyfathrebu o'r fath a ysgogir gan aelodau o staff i gyfryngau cymdeithasol personol myfyriwr gael eu riportio i dîm diogelu'r Coleg.

Byddwch yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol:

- Peidiwch â phostio unrhyw beth ar y cyfryngau cymdeithasol na fydddech eisiau i eraill ei weld. Cofiwch y gallai'r hyn rydych chi'n ei bostio effeithio ar eich gyrfa yn y dyfodol.
- Peidiwch â chael eich gorfodi i wneud unrhyw beth amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol fel postio lluniau neu fideos.
- Peidiwch â derbyn pobl fel ffrindiau neu gymryd rhan mewn sgysiau ar y cyfryngau cymdeithasol os nad ydych chi'n adnabod y bobl rydych chi'n cyfathrebu â nhw, byddwch yn ymwybodol o'r cysyniad o "ddiethryn drwg".

Methu â Dilyn y Polisi a Thorri Cytundeb

- Mae'r defnydd o gysylltiad Rhyngryd a rhwydwaith cyfrifiadurol y Coleg yn frain, nid yn hawl.
- Bydd hawl unrhyw ddefnyddiwr myfyriwr y canfyddir neu y credir eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth yn amhriodol yn cael ei atal rhag defnyddio'r cyfleuster hwn yn awtomatig a heb rybudd.
- Gall mynediad i'r Rhyngryd a rhwydwaith cyfrifiadurol defnyddiwr myfyriwr sy'n torri'r Polisi hwn a thorri eu cytundeb gael ei derfynu am gyfnod amhenodol.
- Gall y Coleg gymryd camau disgyblu eraill yn unol â'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrywyr.

Help a Chymorth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r Polisi hwn neu os oes angen help arnoch i ddefnyddio rhwydwaith y Coleg, gofynnwch i gymhorthydd yn unrhyw un o Lyfrgelloedd y Coleg. Os ydych yn sylwi ar rywun sy'n defnyddio'r rhwydwaith yn amhriodol, rhowch wybod i'ch tiwtor neu'ch Gwasanaethau TG.

Hanes Newidiadau

Fersiwn rhif	Dyddiad Dod i Rym	Newidiadau Arwyddocaol
3	17/06/20	Cyfeiriadau wedi'u hychwanegu i'r Cyfryngau Cymdeithasol